Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe
Hysbysiad
Newid Rheoleiddiedig yn unol â DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013 i newid y Cyfleuster Addysgu Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gŵyr

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion fod Awdurdod Lleol Dinas a Sir Abertawe, ar ôl ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig newid Ysgol Gyfun Gŵyr, Talbot Street, Tregŵyr SA4 3DB drwy wneud y canlynol:

1. Ailddynodi'r Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA) ar gyfer 'Anawsterau Dysgu Cyffredinol' yn CAA ar gyfer 'Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol a/neu Ddysgu'

2. Sefydlu dosbarth ychwanegol ar gyfer 'Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol a/neu Ddysgu'

Byddai hyn yn creu Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA) ar gyfer 'Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol a/neu Ddysgu' â 18 o leoedd arfaethedig i grŵp o ddisgyblion, rhwng 11 ac 16 oed, â chynlluniau datblygu unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol, drwy ailfodelu'r ddarpariaeth bresennol i ddarparu'r mannau addysgu ac arbenigol ychwanegol angenrheidiol ar safle'r ysgol y mae eu hangen ar ddosbarth ychwanegol y CAA. Addysgir yn y CAA drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe ar y dyddiad gweithredu.

Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Ddinas a Sir Abertawe.

Ymgymerodd Dinas a Sir Abertawe â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymateb y cynigydd a barn Estyn ar gael yn https://www.abertawe.gov.uk/trefniadaethYsgolionCAA

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2025.

Ni fwriedir newid nifer derbyn yr ysgol, sef 206.

Gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion o fewn 28 niwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef erbyn 4 Chwefror 2025. Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg, Neuadd y Ddinas, St Helen's Crescent, Abertawe SA1 4PE, neu dylid eu hanfon i trefniadaethysgolion@abertawe.gov.uk

Bydd Dinas a Sir Abertawe'n cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a wneir (na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ochr yn ochr â'i sylwadau arnynt, o fewn y cyfnod 28 niwrnod ar ôl y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnodwyd: *Helen Morgan-Rees*
Cyfarwyddwr Addysg
7 Ionawr 2025

Nodyn Esboniadol

(Nid yw hyn yn rhan o'r hysbysiad ffurfiol. Ei nod yw darparu gwybodaeth bellach a chefndir i'r cynigion.)

1. Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig ailddynodi'r CAA presennol a chreu dosbarth ychwanegol a fyddai'n creu CAA ar gyfer Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol a/neu Ddysgu a allai ddarparu ar gyfer 18 o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

2. Ychwanegir arian ar gyfer y CAA ychwanegol at gyfran y gyllideb a glustnodir i Ysgol Gyfun Gŵyr, yn unol â fformiwla ariannu ysgolion lleol Dinas a Sir Abertawe.

3. Yn yr un modd â chyfleusterau addysgu arbenigol mewn rhannau eraill o'r Awdurdod Lleol, gall disgyblion lenwi'r lleoedd hyn o ddalgylch ehangach na dalgylch traddodiadol yr ysgol brif ffrwd.

4. Yn seiliedig ar uchafswm cymeradwy'r ysgol, mae digon o le i gynnwys y CAA yn yr ysgol drwy ailfodelu ystafelloedd presennol. Ni fyddai unrhyw newidiadau'n effeithio ar allu'r ysgol i dderbyn dysgwyr prif ffrwd ar yr un lefel â'r nifer a dderbynnir ar hyn o bryd.

5. Gellir cael copïau caled neu fersiynau amgen o'r holl ddogfennaeth ar gais gan y Tîm Trefniadaeth Ysgolion:

   E-bost: trefniadaethysgolion@abertawe.gov.uk
   Rhif ffôn: 01792 636509